Gwasanaeth Mabwysiadu Dewi Sant | St David's Adoption Service | AdoptionUK Teulu gyda'n gilydd Together we're family

# GWASANAETH CYFRYNGOL RHIENI BIOLEGOL

### CEFNOGAETH I RIENI Y CAFODD EU PLENTYN EI FABWYSIADU CYN 1976

Fel rhiant i blentyn sydd wedi'i fabwysiadu, efallai eich bod chi wedi cyrraedd cyfnod yn eich bywyd lle hoffech chi ddeall mwy ynghylch amgylchiadau mabwysiadu eich plentyn.



Gwasanaeth Mabwysiadu Dewi Sant | St David's Adoption Service

Fel Asiantaeth Fabwysiadu Gwirfoddol gofrestredig mae Gwasanaeth Mabwysiadu Dewi Sant yn cynnig gwasanaeth cyfryngol ar draws Cymru gyfan i rieni mae eu plentyn wedi cael ei fabwysiadu cyn 1976. Mae'r gwasanaeth hwn yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru, ac maen nhw wedi gofyn i'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol weithio gyda nhw i ddatblygu'r gwasanaeth hwn. Mae'r gwasanaeth yn eich cefnogi chi fel rhiant i gael gwybodaeth am amgylchiadau mabwysiadu eich plentyn ac, os yw'n bosibl, cynnig cymorth i olrhain ac o bosibl gysylltu â'ch plentyn.

- Byddwn yn eich cefnogi drwy rannu gwybodaeth mewn modd sensitif y cytunwyd arni.
- Byddwn yn eich cefnogi i gael dealltwriaeth o unrhyw wybodaeth a rennir.
- Os yn bosibl, byddwn yn helpu i olrhain a chysylltu â'ch plentyn.
- Fel y cytunwyd gyda chi, byddwn yn eich cyfeirio at Adoption UK i fanteisio ar eu gwasanaethau cymorth os mai dyma eich dymuniad.

Rydym ni yma i weithredu fel gweithiwr proffesiynol cefnogol sy'n eich helpu drwy broses emosiynol drwy wrando, cynnig cyngor, rhoi arweiniad ac, os yn bosibl, cynorthwyo gydag olrhain a chysylltu â'ch plentyn.



AdoptionUK
Teulu gyda'n gilydd
Together we're family

**Mae colli plentyn drwy fabwysiadu yn brofiad poenus a gydol oes.**

**Gall chwilio ac aduno yn y pen draw gyda pherson wedi'i fabwysiadu pan fyddant yn oedolyn godi ystod eang o emosiynau cymhleth. Gall Adoption UK gynnig cefnogaeth i'ch galluogi i fyfyrio ar y teimladau hyn gyda chymorth therapydd.** (Nifer cyfyngedig o leoedd ar gael)

**Gallwch gael eich cyfeirio at AUK ar unrhyw adeg yn ystod eich taith cyfryngol.**